**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CYNGOR**
Cofnodion o gyfarfod hybrid y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 6 Mawrth 2024 am 5.00 pm

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Cynghorwyr canlynol yn bresennol yn Siambr y Cyngor:-**

Y Cynghorydd G Hughes (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S Evans | Y Cynghorydd B Stephens |
| Y Cynghorydd L Addiscott | Y Cynghorydd M Ashford |
| Y Cynghorydd J Barton | Y Cynghorydd S Bradwick |
| Y Cynghorydd J. Bonetto | Y Cynghorydd G. Caple |
| Y Cynghorydd A Crimmings | Y Cynghorydd J Cook |
| Y Cynghorydd A Dennis | Y Cynghorydd R Davis |
| Y Cynghorydd E L Dunning | Y Cynghorydd J Elliott |
| Y Cynghorydd L Ellis | Y Cynghorydd S Emanuel |
| Y Cynghorydd D Evans | Y Cynghorydd B Harris |
| Y Cynghorydd A S Fox | Y Cynghorydd G Holmes |
| Y Cynghorydd S Hickman | Y Cynghorydd W Hughes |
| Y Cynghorydd K Johnson | Y Cynghorydd G Jones |
| Y Cynghorydd G O Jones | Y Cynghorydd N H Morgan |
| Y Cynghorydd W Jones | Y Cynghorydd R Lewis |
| Y Cynghorydd W Lewis | Y Cynghorydd C Lisles |
| Y Cynghorydd C Leyshon | Y Cynghorydd M Maohub |
| Y Cynghorydd S Morgans | Y Cynghorydd A Morgan |
| Y Cynghorydd M Norris | Y Cynghorydd W Owen |
| Y Cynghorydd D Owen-Jones | Y Cynghorydd S Rees |
| Y Cynghorydd C Preedy | Y Cynghorydd G Stacey |
| Y Cynghorydd J Smith | Y Cynghorydd S Trask |
| Y Cynghorydd L Tomkinson | Y Cynghorydd G L Warren |
| Y Cynghorydd W Treeby | Y Cynghorydd R Williams |
| Y Cynghorydd M Webber | Y Cynghorydd D Wood |
| Y Cynghorydd T Williams | Y Cynghorydd R Yeo |

**Roedd y Cynghorwyr canlynol yn bresennol ar-lein:-**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd R Bevan | Y Cynghorydd V Dunn |
| Y Cynghorydd S Evans | Y Cynghorydd R Evans |
| Y Cynghorydd D Grehan | Y Cynghorydd P Evans |
| Y Cynghorydd G Hopkins | Y Cynghorydd H Gronow |
| Y Cynghorydd D Parkin | Y Cynghorydd C Middle |
| Y Cynghorydd A O Rogers | Y Cynghorydd A Roberts |
| Y Cynghorydd J Turner | Y Cynghorydd K Webb |
| Y Cynghorydd D Williams | Y Cynghorydd G Williams |

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr P Mee, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Dirprwy Brif Weithredwr ac Chyfarwyddwr Cyfadran - Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

## Ymddiheuriadu am absenoldeb

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd P Binning | Y Cynghorydd J Brencher |
| Y Cynghorydd S J Davies | Y Cynghorydd J Edwards |
| Y Cynghorydd A J Ellis | Y Cynghorydd K Morgan |
| Y Cynghorydd S Powderhill | Y Cynghorydd M Powell |

### 99 Croeso

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i gyfarfod hybrid cyntaf y Cyngor i'w gynnal ym Mhencadlys newydd y Cyngor yn Llys Cadwyn, Pontypridd.

### 100 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

**Eitem 5 ar yr agenda – Cwestiynau'r Aelodau**

Y Cynghorydd K Johnson – Personol – "Rydw i'n cael fy ngyflogi gan gwmni Trafnidiaeth Cymru"

**Eitem 6 ar yr agenda – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2024/2025**

Eglurodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y byddai datganiad personol cyffredinol ar gyfer y rhai sy'n aelodau o Gyngor Tref neu Gymuned yn cael ei ddatgan mewn perthynas ag Eitemau 6 a 7 ar yr Agenda sy'n cyfeirio at y Praeseptau Cynghorau Cymuned/Tref.

Cynghorydd Sera Evans – Personol - "Crybwyllir ysgol fy mab yn yr adroddiad"

(Datganwyd yn ddiweddarach yn y cyfarfod Cyfeiriwch at Gofnod Rhif 105) Y Cynghorydd R Lewis – Personol - "Rwy'n Is-Gadeirydd Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De"

**Eitem 7 ar yr agenda – Penderfyniad Treth y Cyngor 2024/25**

Y Cynghorydd C Lisles – Personol - "Rydw i'n Gynghorydd Cymuned ar Gyngor Tref Pontypridd."

Y Cynghorydd J Bonetto – Personol - "Rydw i'n Gynghorydd Cymuned ar Gyngor Cymuned Ffynnon Taf a Nantgarw"

Y Cynghorydd A Rogers – Personol - "Rwy'n aelod o Gyngor Cymuned Hirwaun

a Phenderyn"

Y Cynghorydd B Harris – Personol – "Rydw i'n Aelod o Banel Heddlu a Throsedd De Cymru."

Y Cynghorydd L Addiscott – Personol – "Rydw i'n Aelod o Banel Heddlu a Throsedd De Cymru."

**Eitem 8 ar yr agenda – Rhaglen Gyfalaf 2024-2025-2026-27**

Y Cynghorydd W. Owen – Personol – "Rwy'n eistedd ar Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Pont-y-clun"

Y Cynghorydd G Holmes – Personol - "Rwy'n Llywodraethwr ar gyfer Ysgol Gynradd Pen-y-gawsi"

Y Cynghorydd S Morgans – Personol - "Rwy'n Llywodraethwr ar gyfer Ysgol Llyn Y Forwyn"

Cynghorydd J Smith – Personol – "Rwy'n Llywodraethwr ar gyfer Ysgol Llyn Y Forwyn"

Y Cynghorydd M Webber – Personol- "Rwy'n eistedd ar y Corff Llywodraethu dros dro ar gyfer Ysgol newydd Awel Taf"

Y Cynghorydd L Tomkinson – Personol - "Rwy'n Llywodraethwr dros dro ar gyfer Ysgol Afon Taf"

Y Cynghorydd S Trask - Personol - "Mae fy merch yn mynychu Ysgol Gyfun Bryncelynnog"

Y Cynghorydd C Lisles – Personol - "Rwy'n Gadeirydd y llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen"

Y Cynghorydd C Lisles – Personol - "Rwy'n aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen a fydd yn ffurfio Ysgol Afon Wen"

Y Cynghorydd C Preedy - Personol - "Mae gen i aelod o'r teulu sy'n athro yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog"

Y Cynghorydd A Roberts – Personol - "Rwy'n Llywodraethwr ar gyfer Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen"

Y Cynghorydd J Bonetto - Personol - "Rwy'n Llywodraethwr yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen"

Cynghorydd J Bonetto – Personol - "Rwy'n eistedd ar y Corff Llywodraethu dros dro ar gyfer Ysgol newydd Afon Wen"

**Eitem Agenda 11 – Datganiad 2024/25 y Cyngor ar Bolisi Cyflogau**

Roedd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn dymuno gwneud datganiad ar ran holl Swyddogion y Cyngor a oedd yn bresennol mewn perthynas ag Eitem 11 ar yr Agenda:

“Nid yw datganiad y Cyngor ar Bolisi Cyflogau yn cael unrhyw effaith ar delerau ac amodau presennol sy'n berthnasol i weithwyr unigol. Yn syml mae'n nodi dull y Cyngor tuag at bolisïau a fabwysiadwyd yn flaenorol, felly bydd Swyddogion yn aros yn y cyfarfod tra bydd yr eitem yn cael ei chyflwyno gan y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol ac yn ystod y drafodaeth ddilynol."

**101 Cofnodion**

**PENDERFYNODD** y Cyngor gymeradwyo cofnodion y cyfarfod ar-lein blaenorol o'r Cyngor, a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2024, yn rhai cywir.

**102 Cyhoeddiadau**

Cafodd y cyhoeddiadau canlynol eu gwneud:

- Roedd y Cynghorydd Sera Evans yn dymuno estyn ei chydymdeimlad i Arweinydd Grŵp Plaid Cymru, y Cynghorydd Karen Morgan, a’i theulu yn dilyn marwolaeth drist ei gŵr, Gareth, o ganlyniad i salwch difrifol a hirfaith. Roedd y Cynghorydd Evans yn dymuno estyn ei chydymdeimlad dwysaf â’r Cynghorydd Morgan, ei theulu a’i phlant ar yr adeg hynod drist ac anodd yma.

- Talodd y Cynghorydd Sheryl Evans deyrnged i’r cyn-Gynghorydd diweddar Linda De Vet, a fu farw ar 7 Chwefror 2024. Roedd y cyn-Gynghorydd De Vet yn cynrychioli ward Gogledd Aberaman ar y pryd ac fe’i hetholwyd yn Faeres ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2019-2020. Safodd i lawr fel Cynghorydd yn Etholiadau 2022 ond siaradodd y Cynghorydd Evans yn annwyl am ei chyfeillgarwch gyda’i ffrind Linda De Vet.

- Roedd y Cynghorydd A Morgan OBE hefyd yn dymuno talu teyrnged i'r cyn-Gynghorydd Simon Lloyd a fu farw'n ddiweddar. Cafodd ei ethol i gynrychioli ward Gorllewin Aberpennar mewn is-etholiad yn 2005 a safodd eto yn Etholiadau Lleol 2008 a 2012, cyn sefyll i lawr yn 2017. Gwasanaethodd fel Maer y Cyngor yn 2010/2011, gan fwynhau'r gwaith yn fawr, ac roedd hefyd yn gyn aelod o Gyngor Sir Morgannwg Ganol. Cydymdeimlodd yr Arweinydd â theulu Simon ar yr adeg drist yma.

Arweiniodd y Llywydd y Cyngor mewn munud o dawelwch er cof am y tri unigolyn yma.

**103 Cwestiynau gan yr Aelodau**

**1) Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Evans i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan OBE:**

“A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet roi’r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun i uwchraddio’r cwlfert ar ystad ddiwydiannol y Porth?”

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan OBE:**

Dywedodd yr Arweinydd fod y gwaith bellach wedi'i gwblhau ar y cwlfert yn Ystâd Ddiwydiannol Llwyncelyn, y Porth, a ariannwyd drwy Gronfa Ffyrdd Cydnerth Llywodraeth Cymru. Ychwanegodd fod y gwaith wedi cynnwys uwchraddio'r cwlfert yn llwyr, gyda dyfeisiau gorlif wedi'u hadeiladu i mewn, ac mae trefniadau Monitro TCC 24/7 eisoes ar waith ar y safle, sy'n gysylltiedig ag ystafell reoli argyfwng y Cyngor. Bydd unrhyw stormydd sydd â rhybudd melyn neu ambr yn y dyfodol yn golygu y bydd yr ystafell reoli yn cael ei staffio a'i monitro.

Soniodd yr Arweinydd am y buddsoddiad sydd wedi dod i gyfanswm o £150,000 a sut mae'r ymatebion gan fusnesau lleol i'r buddsoddiad a'r gwaith eisoes wedi bod yn gadarnhaol.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

**2) Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol D Williams i Arweinydd y Cyngor - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan OBE:**

"A oes modd i'r Arweinydd roi diweddariad ar y paratoadau sydd ar y gweill cyn i RhCT groesawu'r Eisteddfod yn yr haf?"

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan OBE:**

Dywedodd yr Arweinydd fod gwaith ar gwblhau'r Cynllun Gofodol wedi gwneud cynnydd da, a bod lleoliadau arfaethedig ar gyfer cyfleusterau parcio a theithio, maes carafanau a chyfleusterau gwersylla eraill yn cael eu hystyried gan Bwyllgor Eisteddfod y Cyngor yr wythnos nesaf. Ychwanegodd yr Arweinydd y byddai cyhoeddiad yn cael ei wneud yn y dyddiau nesaf gyda newyddion cadarnhaol pellach yn ymwneud â'r Eisteddfod.

Dywedodd yr Arweinydd fod cyfarfod cadarnhaol wedi'i gynnal yn ddiweddar gyda'r holl Aelodau lleol yng nghyffiniau Pontypridd, gan nodi dechrau ymgysylltiad a chyswllt rhagweithiol, parhaus ag Aelodau ar drefniadau isadeiledd yr Eisteddfod. Ychwanegodd fod disgwyl y bydd mwy na 160,000 o ymwelwyr yn dod i'r dref dros y cyfnod o wyth diwrnod. Dywedodd yr Arweinydd na fydd unrhyw reswm i yrru drwy Bontypridd yn ystod yr Eisteddfod wrth i Swyddogion barhau i weithio'n agos gyda Phwyllgor yr Eisteddfod a Thrafnidiaeth Cymru i ddatblygu cynllun Rheoli Traffig gyda gwell darpariaeth trenau a fflydoedd o fysiau yn cludo pobl a thrigolion yn rhan o'r trefniadau parcio a theithio.

Eglurodd yr Arweinydd y bu codi arian sylweddol hyd yn hyn, gyda chefnogaeth barhaus i bwyllgorau apêl lleol sy'n codi arian i'r Eisteddfod Genedlaethol. Roedd yr Arweinydd yn awyddus i bwysleisio bod yr Eisteddfod yn agored i'r holl drigolion, ac mae ymgysylltu â'r holl bobl ifainc ledled y fwrdeistref sirol yn hollbwysig.

Dywedodd yr Arweinydd y bydd buddion yr Eisteddfod i'w gweld ym mhob rhan o'r fwrdeistref sirol ac nid yn nhref Pontypridd yn unig, ac felly mae'r garfan ar gyfer Canol Trefi yn parhau i weithio, nid yn unig ag AGB Pontypridd ond hefyd AGB Aberdâr a Threorci i hyrwyddo'r Eisteddfod ymhell ac yn agos, a hynny ymhlith ymwelwyr a thrigolion.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

**3) Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Davis i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymdeithasol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Caple:**

"A all yr Aelod Cabinet amlinellu'r camau nesaf ar gyfer y cynllun Gofal Ychwanegol yn y Porth yn dilyn y newyddion bod contractwr newydd wedi'i benodi?"

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Caple:**

Manteisiodd y Cynghorydd Caple ar y cyfle i roi gwybod am fuddsoddiad y Cyngor o £60 miliwn i foderneiddio cartrefi gofal preswyl y Cyngor er mwyn sicrhau urddas a pharch i'r henoed, gyda chartrefi gofal ychwanegol o'r radd flaenaf sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer anghenion mwy cymhleth megis Dementia. Bydd y cyfleusterau yma'n gwella annibyniaeth pobl hŷn ac yn rhoi dewis gwirioneddol i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, a hynny yn erbyn toriadau cyllidebol ac argyfwng costau byw ariannol.

Dywedodd y Cynghorydd Caple fod y datblygiad penodol hwn wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl yn wreiddiol, a hynny oherwydd effaith y pandemig a'r ffaith bod y contractwyr dethol wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr. Er gwaethaf yr heriau anodd hyn, roedd y Cynghorydd Caple yn falch o ddweud bod gwaith wedi ailddechrau ar y safle gyda chontractwr newydd. Ychwanegodd y bydd y datblygiad Gofal Ychwanegol yn cynnwys 54 o fflatiau sydd ag 1 ystafell wely a 6 o fflatiau sydd â 2 ystafell wely, ochr yn ochr ag ardal fwyta, salon trin gwallt, ystafell weithgareddau a chanolfan oriau dydd.

Daeth y Cynghorydd Caple i'r casgliad y bydd y buddsoddiad hwn yn ganolog i gefnogi defnyddwyr canolfannau oriau dydd sydd ag anghenion a aseswyd, i sicrhau bod unigedd ac unigrwydd yn cael eu lliniaru a hyrwyddo annibyniaeth a lles pobl, gan sicrhau bod isadeiledd bariatrig a theclynnau codi ar gael ym mhob rhan o gynllun y safle.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

Ni chafodd cwestiwn 4 i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol ei ofyn ac felly fe syrthiodd.

**5) Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. Owen-Jones i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan OBE:**

"Pa effaith fydd y cyhoeddiad gan TATA Steel ei fod yn bwriadu bwrw ymlaen â'r cynigion i dorri 2,800 o swyddi yn ei chael ar ein cymunedau?"

**Ymateb y Cynghorydd A Morgan OBE:**

Eglurodd y Cynghorydd Morgan, er mai'r pryder yw'r 2,800 o swyddi a gollwyd, atgoffodd yr Aelodau fod tair swydd cadwyn gyflenwi hefyd yn gysylltiedig â

phob gweithiwr dur ac felly gallai fod llawer mwy o swyddi'n cael eu colli nag a ragwelwyd yn wreiddiol.

Cadarnhaodd yr Arweinydd ei fod wedi mynychu rali ym Mhort Talbot ychydig wythnosau yn ôl lle’r oedd y teimlad o bryder, ansicrwydd a dicter ymhlith y gweithwyr a’u teuluoedd yn amlwg. Dywedodd ei fod hefyd yn gyfle i siarad ag Arweinwyr Cynghorau eraill, cynrychiolwyr cymunedol, Undebau a Llywodraeth Cymru.

Eglurodd yr Arweinydd ei bod hi'n allweddol cael mynediad at gyllid y cyfeiriwyd ato gan Lywodraeth y DU, er bod y manylion ynghylch sut y bydd y pecyn £100 miliwn yn cael ei weinyddu yn parhau i fod yn aneglur ar hyn o bryd. Ychwanegodd ei fod yn awyddus i gael trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru yn dilyn yr ymgysylltu sylweddol a fu rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau a staff UK Windows and Doors pan aeth y cwmni i ddwylo’r gweinyddwyr. Ychwanegodd fod y Cyngor yn ceisio darparu cymorth tebyg ag y mae wedi’i wneud o’r blaen, gan weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod cymorth a chyngor ar gael i’r rhai yr effeithir arnynt.

Dywedodd yr Arweinydd fod yr Undebau Llafur ar flaen y gad yn y frwydr, gyda chefnogaeth gwleidyddion Llafur lleol, gweithwyr dur, a’r cymunedau lleol. Ychwanegodd fod y Blaid Lafur wedi ymrwymo i gronfa dur glân gwerth £3 biliwn, a'i fod yn obeithiol y byddai TATA yn gohirio gweithredu ei gynlluniau yn ddigon hir i ddisgwyl canlyniad yr Etholiad Cyffredinol nesaf.

Pwysleisiodd yr Arweinydd yr angen i gadw'r sgyrsiau yn agored ac eglurodd ei bod hi'n hollbwysig bod Llywodraeth Lafur newydd yn ail-negodi pecyn gwell o fuddsoddiad sy'n diogelu swyddi ac yn sicrhau trosglwyddiad cyfiawn i ddulliau cynhyrchu gwyrddach. Dywedodd yr Arweinydd fod y sefyllfa gyda TATA Steel yn debygol o gael yr un effaith ag yr oedd cau'r pyllau glo yn yr 1980au.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

**6) Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol L. Ellis i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan OBE:**

“A all yr Arweinydd roi’r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen i reoli tomennydd glo ledled RhCT?”

**Ymateb y Cynghorydd A Morgan OBE:**

Sicrhaodd y Cynghorydd Morgan yr Aelodau fod diogelwch tomennydd glo yn flaenoriaeth i'r Cyngor ers Storm Dennis a'r tirlithriad yn Nhylorstown. Ychwanegodd fod gan y Cyngor garfan o arolygwyr sy'n gwneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd ac yn archwilio tomennydd. Rhoddodd ddiweddariad ar y cynnydd yn ymwneud â'r domen yn ardal Tylorstown lle mae'r hen domen lo wedi'i symud a mwy o waith draenio wedi'i wneud, gyda chamau monitro hirdymor ar waith. Dywedodd yr Arweinydd y bydd y gwaith ar domen Tylorstown yn cael ei gwblhau yr haf hwn, fel y bwriadwyd, gyda gwaith pellach gwerth £2 miliwn i fynd rhagddo.

Dywedodd yr Arweinydd fod yna domennydd eraill ledled y fwrdeistref sirol sydd naill ai angen eu monitro, eu cynnal a'u cadw neu, mewn rhai achosion, bydd angen ymyrraeth. Esboniodd fod y diffygion yn cael eu categoreiddio gan

ddefnyddio system liwiau Du, Coch, Ambr a Gwyrdd (BRAG). Mae Du yn golygu bod angen cymryd camau brys ar unwaith. Mae coch yn gofyn am waith cynnal a chadw tymor byr lle mae angen gwaith adfer a dylid gweithredu arno cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Mae achosion Ambr angen gwaith cynnal a chadw neu waith adfer tymor canolig ond gyda threfniadau lliniaru risg megis ymweliadau safle, monitro ac ati ac yn olaf, mae achosion Gwyrdd angen gwaith cynnal a chadw hirdymor neu waith adfer, ond ar hyn o bryd mae risg isel.

Eglurodd yr Arweinydd hefyd y diffiniadau categori a'r cyfnodau arolygu sydd fel y ganlyn: Mae D1 yn galw am arolygiad misol, mae D3 yn galw am arolygiad bob 3 mis, mae C yn galw am arolygiad bob 6 mis, mae angen arolygiad blynyddol ar B, mae A2 yn arolygiad bob 2 flynedd, yn olaf mae A4 yn galw am arolygiad bob 4 blynedd (mae'r ddau olaf yn dommennydd sydd wedi'u hadennill neu'u dileu ond mae angen eu monitro o hyd).

Dywedodd yr Arweinydd fod Swyddogion y Cyngor yn gwneud gwaith ar gynlluniau brys ar y cyd â'r Gwasanaethau Brys pe bai unrhyw bryderon ynghylch y tomennydd categori C a D yn cael eu codi. Mae hyn ynghyd ag archwiliadau rheolaidd wedi'u cynllunio, yn ogystal ag archwiliadau tywydd garw ad-hoc, yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa dda i gadw ei domennydd yn ddiogel i'w drigolion.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

**7) Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S.Trask i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan OBE:**

"A all yr Arweinydd wneud datganiad ar yr ymgynghoriadau cyhoeddus sydd wedi digwydd yn ystod y tri mis diwethaf?"

Dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor wedi cynnal chwe ymgynghoriad cyhoeddus mawr dros y tri mis diwethaf, a nododd fanylion pob un o'r chwech o fewn y cyfnod o dri mis:

Cam 1 yr Ymgynghoriad ar y Gyllideb, 6 Tachwedd - 15 Rhagfyr 2023 gyda 653 o ymatebion, Clybiau Brecwast, 27 Tachwedd - 8 Ionawr gyda 1351 o ymatebion Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, 27 Tachwedd - 8 Ionawr (estynedig 18 Ionawr – 8 Chwefror), 2858 o ymatebion, Cyfnod 2 yr Ymgynghoriad ar y Gyllideb, 4 Ionawr – 8 Chwefror 2024, 530 o ymatebion, yr Ymgysylltu Cynllun Cydraddoldeb Strategol,12 Rhagfyr 2023 – 9 Chwefror 2024, 96 o ymatebion, ac Ymgysylltu â'r Cynllun Corfforaethol, 8 Rhagfyr 2023 – 29 Ionawr 2024 gyda 469 o ymatebion.

**Cwestiwn Ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. S. Fox:**

"Rwy'n pryderu am y pwysau a roddwyd ar yr ymatebion cyhoeddus, er enghraifft ar gyfer yr ymgynghoriad ar y cynnig i gau Ysgol Gynradd y Rhigos, lle cafodd y cynllun ei gymeradwyo er bod dros 90% o'r ymatebwyr yn ei erbyn. Mae'r ymgynghoriad sydd ar y gweill o ran y CDLl Diwygiedig yn cynnwys ffurflenni cymhleth i awgrymu safleoedd newydd ond gwrthodwyd fy nghais i symleiddio'r ffurflenni hyn. Faint o bwysau a roddir ar ymatebion y cyhoedd?"

**Ymateb y Cynghorydd A Morgan OBE:**

Ymatebodd yr Arweinydd fod ymatebion y cyhoedd yn bwysig a'u bod yn chwarae rhan allweddol yn yr ymgynghoriadau i sicrhau bod Aelodau'n meddu ar yr holl wybodaeth berthnasol wrth wneud penderfyniadau. Ychwanegodd fod yr ymatebion cyhoeddus hefyd yn sicrhau bod y Cyngor yn ystyried unrhyw sylwadau sy'n codi, fel bod modd gwneud unrhyw addasiadau perthnasol lle bo angen. Gofynnir i swyddogion ddarparu rhagor o wybodaeth yn ôl yr angen ac weithiau bydd angen ailymgynghori yn dilyn newidiadau pellach i'r cynllun yn sgil hyn. Pwysleisiodd yr Arweinydd nad yw ymgynghoriad yn gyfystyr â refferendwm.

**Nid oedd unrhyw gwestiynau pellach oherwydd bod yr amser a neilltuwyd wedi dod i ben.**

**104 Rhaglen Waith y Cyngor 2023/2024**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu Raglen Waith y Cyngor ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023/24 ac fel y cynghorwyd yn flaenorol, bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn mynychu cyfarfod nesaf y Cyngor. Hefyd, bydd Dadl Flynyddol yr Arweinydd, a drefnwyd yn wreiddiol ar gyfer mis Chwefror, bellach yn rhan o gyfarfod y Cyngor ym mis Ebrill, sef cyfarfod rheolaidd olaf y flwyddyn ddinesig yma.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth hefyd y byddai Aelodau yn derbyn Cynllun Corfforaethol y Cyngor, yr Adolygiad o Ffiniau Cymunedol ac adroddiad ar Gydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor yn ystod y cyfarfod nesaf. I gloi, ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai diweddariad yn cael ei ddarparu ar ofynion busnes y Cyngor rhwng nawr a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB), a hynny trwy law'r Arweinwyr Grwpiau, cyn cyhoeddi'r rhaglen waith wedi'i diweddaru.

**105 Strategaeth Cyllideb Refeniw 2024/25**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid a Gwasanaethau Digidol a Rheng Flaen y Strategaeth Gyllideb a argymhellir gan y Cabinet ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25. Mae'r strategaeth bellach yn cael ei hargymell i'r Cyngor Llawn.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Cyfadran fod y strategaeth ddrafft wreiddiol wedi'i chymeradwyo gan y Cabinet ar 24 Ionawr, a'i bod wedi bod yn destun ail gam ymgynghori a gafodd ei gynnal rhwng 24 Ionawr a 9 Chwefror. Mae'r holl adborth o ail gam yr ymgynghoriad wedi'i ystyried gan y Cabinet ac mae ynghlwm wrth yr adroddiad. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Cyfadran fod yr adborth yn cynnwys yr adroddiad ymgynghori, cofnodion cyfarfodydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cyngor, y Fforwm Cyllideb Ysgolion a'r Cydbwyllgor Ymgynghorol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyfadran fod y strategaeth, y cytunwyd arni wedyn gan y Cabinet ar 21 Chwefror, wedi ei nodi yn yr adroddiad.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyfadran y rhagwelir y byddai bwlch cychwynnol y Cyngor yn y gyllideb, fel y'i nodwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig diwethaf, yn £36 miliwn ar gyfer y flwyddyn nesaf. Yn erbyn y sefyllfa yma, mae nifer o fesurau lleihau cyllideb cynnar, yr adroddwyd arnynt yn flaenorol ac y penderfynwyd arnynt yn flaenorol, wedi'u gwrthbwyso, gan adael bwlch o £25.9 miliwn yn weddill. Dyma'r sefyllfa y lluniwyd strategaeth y gyllideb yn ei herbyn.

Ychwanegodd fod y Cyngor bellach wedi derbyn y setliad llywodraeth leol terfynol sydd hefyd yn cael ei adlewyrchu. Ychwanegodd fod y setliad terfynol yn cadarnhau cynnydd mewn cyllid ar lefel Cymru gyfan o 3.3% a 3% ar gyfer y Cyngor hwn. Mae lefelau setliadau ledled Cymru yn amrywio o 2.3% i 5% gyda chyllid gwaelodol yn ei le ar lefel is y setliad. Ychwanegodd fod tri throsglwyddiad i'r grant cynnal refeniw yn y setliad terfynol, fodd bynnag, nid yw'r rhain yn cael effaith net ar sefyllfa'r gyllideb.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyfadran am elfennau allweddol strategaeth y gyllideb a nodir yn adran 7 yr adroddiad, sy'n ymdrin â'r bwlch cyllidebol o £25.9 miliwn sy'n weddill:

- Y cynnydd arfaethedig yn nhreth y cyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf yw 4.99% a fydd yn darparu incwm ychwanegol o £1.122 miliwn, yn ychwanegol at y 3.9% a fodelwyd yn wreiddiol. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o £1.03 yr wythnos ar gyfer eiddo Band A neu £1.55 ar gyfer eiddo Band D. Mae elfen o'r cynnydd yn nhreth y cyngor wedi'i neilltuo i gefnogi darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus ledled y fwrdeistref sirol;

- Mae ysgolion y Cyngor wedi'u diogelu ers blynyddoedd lawer, gyda'u cyllidebau wedi cynyddu gan 34% dros y deng mlynedd diwethaf, pan mae gwasanaethau eraill y Cyngor wedi gweld cynnydd sy'n gyfystyr â dim ond hanner y lefel honno. Roedd cronfeydd wrth gefn ysgolion yn £15 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf, sydd ar lefel hanesyddol o uchel, o'i gymharu â 31 Mawrth 2020 pan oedd cronfeydd wrth gefn yr ysgol yn £2.4 miliwn. Cynigir bod y Cyngor yn ariannu ysgolion yn llawn ar gyfer yr holl bwysau cyflog y flwyddyn nesaf ynghyd â rhoi £1 miliwn pellach o gyllid cylchol iddyn nhw, yn ogystal â £0.5 miliwn pellach o gyllid unwaith ac am byth. Bydd hyn yn gweld cynnydd o £12.4 miliwn neu 6.6% yng nghyllideb Ysgolion ar gyfer y flwyddyn nesaf, gan godi cyllideb gyffredinol ysgolion i £198.5 miliwn. Mae'r lefel yma o gynnydd dros ddwywaith y cynnydd o'i gymharu â'r cynnydd yng nghyllid cyffredinol y Cyngor. Mae'r Cyngor yn aros am gadarnhad gan Lywodraeth San Steffan ynghylch cyllid ar gyfer costau uwch sy'n gysylltiedig â chostau pensiynau athrawon o fis Ebrill y flwyddyn nesaf, ac mae'r Cyngor wedi cael gwybod bod hyn yn fater o amseru.

- Mae arbedion effeithlonrwydd ychwanegol gwerth £5.2 miliwn wedi'u nodi gan Uwch Arweinwyr y Cyngor fel mesurau y gellir eu cyflawni'n weithredol a heb effaith andwyol sylweddol ar wasanaethau rheng flaen y Cyngor. Mae'r £5.2 miliwn yma'n ychwanegol at yr £8.2 miliwn o fesurau lleihau cyllideb cynnar a nodwyd yn flaenorol ac yr adroddwyd arnyn nhw ym mis Tachwedd 2023, a bydd yn dod â chyfanswm y mesurau effeithlonrwydd, sydd bellach wedi'u cynnwys yng nghyllideb y flwyddyn nesaf, i dros £13 miliwn.

- Mae cyfres o fesurau, a nodir yn adran 10 o'r adroddiad sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd ynni ac addasiadau i'r gyllideb sylfaenol ac effaith y penderfyniad i godi tâl am elfen gofal plant clybiau brecwast. Bydd yr arian sy'n deillio o hyn yn cael ei fwydo i mewn i gyllidebau Ysgolion, cyfalafu a chynigion ynghylch lefel y ffioedd a thaliadau ar gyfer y flwyddyn nesaf.

- Roedd y setliad terfynol hefyd yn cadarnhau'r hysbysiad cynnar a gafodd y Cyngor gan Lywodraeth Cymru am lefel yr adnoddau ychwanegol y

bydd y Cyngor nawr yn eu derbyn o ganlyniad i gyhoeddiad Llywodraeth y DU ym mis Ionawr, gyda £600 miliwn ychwanegol o gyllid ar gyfer llywodraeth leol yn Lloegr. Arweiniodd hyn at £25 miliwn ychwanegol i Gymru a £1.951 miliwn ychwanegol i Rondda Cynon Taf. Darperir y cyllid ychwanegol yma drwy gyfuniad o grant cynnal refeniw ychwanegol ac adfer grant y gweithlu gofal cymdeithasol i £45 miliwn ar lefel Cymru gyfan.

- Cyfanswm gwerth cydrannau'r strategaeth yw £16.457 miliwn sydd, gyda'r adnoddau ychwanegol yn y setliad terfynol, yn gadael bwlch yn y gyllideb sy'n weddill o £7.502 miliwn, a nodir hyn yn nhabl 2 (paragraff 10.4). Cynigir bod y bwlch sy'n weddill yn y gyllideb yn cael ei gydbwyso â dyraniad o'r gronfa arian pontio wrth gefn sydd wedi'i sefydlu at y diben hwn a'i ailgyflenwi wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyfadran fod cyllid pontio a chronfeydd wrth gefn y Cyngor yn cael eu defnyddio'n synhwyrol yn rhan o brosesau pennu cyllideb flynyddol y Cyngor, gan gydnabod nad yw defnyddio cronfeydd wrth gefn yn unig yn strategaeth gynaliadwy. Ychwanegodd ei fod yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau ar waith i barhau i gyflawni arbedion yn gynnar sy'n fodd i ailgyflenwi'r gronfa wrth gefn hon a chyflawni'r arbedion cylchol angenrheidiol o ran y gyllideb sylfaenol wrth symud ymlaen.

Daeth y Cyfarwyddwr Cyfadran i'r casgliad, yn gyffredinol, y bydd hyn yn arwain at gyllideb net o £631.795 miliwn ar gyfer y flwyddyn nesaf. Dywedodd fod eleni wedi bod yn flwyddyn ac yn amgylchedd ariannol heriol o ran llunio'r opsiynau cyllideb a nawr y gyllideb a argymhellir gan y Cabinet. Pwysleisiodd efallai y bydd angen bod yn barod ar gyfer cyfyngiadau ariannol pellach a mwy sylweddol, ond sicrhaodd yr Aelodau y bydd uwch swyddogion yn parhau i wneud popeth o fewn eu gallu i fanteisio i'r eithaf ar effeithlonrwydd a diogelu gwasanaethau rheng flaen y Cyngor.

Diolchodd Arweinydd y Cyngor i'r Cyfarwyddwr Cyfadran am ei adroddiad a chydnabu ddiwydrwydd yr uwch swyddogion wrth reoli'r gyllideb er gwaethaf yr anawsterau a wynebwyd eleni gyda chyfraddau uchel chwyddiant, twf cyflog a'r galwadau cynyddol ar wasanaethau'r Cyngor. O ran lefel arfaethedig treth y Cyngor, gwnaeth yr Arweinydd sylwadau ar lefelau treth y Cyngor a osodwyd gan awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, gyda Chyngor RhCT yn yr ail safle o'r gwaelod.

Atgoffodd yr Arweinydd yr Aelodau fod y Cyngor yn gwneud ei orau glas i ddiogelu ac ariannu ysgolion, gyda'r Cyngor hwn yn ariannu'r dyfarniad cyflog addysgu a'r rhai nad ydynt yn addysgu yn llawn gyda'r Cabinet yn argymell taliad untro ychwanegol o hanner miliwn o bunnoedd i ysgolion (fel y nodir yn yr adroddiad). Soniodd am bwysigrwydd llunio cyllideb gytbwys sy'n gredadwy ac yn gynaliadwy i drigolion RhCT.

Manteisiodd Arweinwyr Grŵp/Dirprwy Grŵp eraill ar y cyfle i drafod yr adroddiad yn fanwl ac ymatebodd y Cyfarwyddwr Cyfadran i nifer o ymholiadau mewn perthynas â Strategaeth Cyllideb Refeniw 2024/25.
I gloi, ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

1. <u>Nodi'r llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (Rebecca Evans AS) a'r tabl ar setliad llywodraeth leol terfynol 2023/24, yn Atodiad 1;</u>

2. Nodi'r goblygiadau i'r Cyngor a'r bwlch sy'n weddill yn y gyllideb fel sydd wedi'i nodi yn adran 5;

3. Cytuno ar gynnydd o 4.99% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2024/25;

4. Cytuno ar y cynnydd yng Nghyllideb Grynswth yr Ysgolion fel sydd wedi'i nodi yn adran 8;

5. Cytuno ar gynigion y strategaeth gyllideb fel sydd wedi'u nodi ym mharagraffau 10.2 i 10.4;

6. Cytuno i ddefnyddio'r 'Gronfa Gweddnewid Gwasanaeth a Chynllunio Ariannol Tymor Canolig Wrth Gefn' fel arian pontio, sef cyfanswm o £7.502 miliwn ar gyfer 2024/25;

4. Cymeradwyo Tablau 4 a 5 yn Adran 13 yr adroddiad yn sail ar gyfer dyrannu adnoddau i Gyllidebau Ysgolion Unigol, i Wasanaethau eraill y Cyngor, ac i fodloni gofynion ariannu corfforaethol y Cyngor; a

4. Cytuno ar gyllideb gyffredinol y Cyngor ar gyfer 2024/25 o £631.795 miliwn, er mwyn cymeradwyo'r penderfyniadau statudol angenrheidiol o ran pennu Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod erbyn y terfyn amser statudol, sef 11 Mawrth 2023.

(**Nodyn:** Datganodd y Cynghorydd R Lewis fuddiant personol—“Rwy’n Is-Gadeirydd Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De”).

**106 PENDERFYNIAD TRETH Y CYNGOR 2024/25**

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyfadran Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Rheng Flaen fod yr adroddiad hwn, yn unol â'r Strategaeth Gyllidebol y cytunwyd arni, yn cynrychioli'r gofyniad ffurfiol a chyfreithiol i'r Cyngor gytuno ar benderfyniad o ran treth y Cyngor, gan gynnwys manylion treth y cyngor sydd i'w chodi mewn perthynas â Chynghorau Cymuned a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Dywedodd mai lefel treth y cyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf, yn unol â phenderfyniad a wnaed yn strategaeth y Gyllideb, fydd £1694.65. Mae’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi hysbysu’r Cyngor am gynnydd yn y praesept ar gyfer y flwyddyn nesaf, gyda chynnydd canlyniadol yn lefel ei dreth y cyngor o 8.69%, gan fynd â lefel ei dreth y cyngor i £352.67 a fydd yn dod ag effaith gyfunol y cynnydd ar gyfer y Cyngor a'r Heddlu i gynnydd cyfanredol o 5.61% ar gyfer yr eiddo Band D hynny nad oes rhaid iddynt hefyd dalu tâl cyngor cymuned. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Cyfadran fod lefel taliadau praesept Cynghorau Cymuned a Thref wedi'u hysbysu a'u bod hefyd wedi'u nodi yn Atodiad 1 yr adroddiad.

I gloi, rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyfadran wybod bod ganddo ddyletswydd i roi gwybod i'r Cyngor am gadernid amcangyfrifon a digonolrwydd y cronfeydd ariannol arfaethedig sydd wedi'u nodi yn adran 9 yr adroddiad.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD**:

i) Nodi lefel y praesept gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu

ar gyfer De Cymru;

ii) Nodi lefel Praeseptau y Cyngor Cymuned/Tref, fel sydd wedi'i nodi yn Atodiad 1;

iii) Pasio'r penderfyniadau ffurfiol Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth, 2025, fel sydd i'w gweld yn Atodiad 2;

iv) Nodi'r sylwadau am gadernid yr amcangyfrifon a digonolrwydd cronfeydd ariannol arfaethedig a nodir ym mharagraff 9.2.

**107 RHAGLEN GYFALAF 2024/25 – 2026/27**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyfadran Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Rheng Flaen yr adroddiad a oedd yn nodi Rhaglen Gyfalaf tair blynedd arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2024/25 i 2026/27 i'w hystyried gan y Cyngor, sef cyfanswm o £165.6 miliwn dros y tair blynedd nesaf.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyfadran fod hyn yn cynrychioli rhaglen graidd o £42.5 miliwn, grantiau penodol o £42 miliwn o fenthyca i gefnogi'r rhaglen buddsoddi mewn ysgolion o £13 miliwn, dros £33 miliwn o adnoddau ychwanegol eisoes wedi'u neilltuo i ariannu meysydd buddsoddi â blaenoriaeth ac arian ychwanegol a buddsoddiad newydd pellach a nodwyd o dros £19 miliwn (a nodir yn adran 6 yr adroddiad) a gynigir ar draws meysydd cynnal a chadw priffyrdd, ffyrdd heb eu mabwysiadu, strwythurau priffyrdd, rhwydi cerrig Ffordd Mynydd y Rhigos, gwaith lliniaru llifogydd, biniau Gofal Strydoedd, strwythurau mewn parciau, parciau a mannau gwyrdd, buddsoddiad mewn parciau gwledig, mannau chwarae, ardaloedd gemau amlddefnydd, Fferm Solar Coed Elái, cae hoci'r Ddraenen Wen ac offer ffitrwydd Hamdden, cyfanswm o £19.292M o fuddsoddiad ychwanegol. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Cyfadran fod y rhaglen newydd hefyd yn cynnwys dyraniadau ar gyfer y flwyddyn nesaf o £15.9 miliwn ar gyfer gweithgareddau adfywio, £11.5 miliwn ar gyfer tai sector preifat, £42 miliwn ar gyfer gwasanaethau rheng flaen, gan gynnwys priffyrdd, prosiectau strategol, gwaith adfer Storm Dennis, parciau, gwastraff a fflyd, £39 miliwn o fuddsoddiad ar draws y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant a £13 miliwn mewn Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant.

Gorffennodd y Cyfarwyddwr Cyfadran drwy ychwanegu, er gwaethaf yr heriau ariannu parhaus y mae'r Cyngor yn parhau i'w hwynebu gyda'i gyllideb refeniw, y gall y Cyngor gynnig rhaglen buddsoddi cyfalaf sylweddol ac uchelgeisiol sy'n adeiladu ar fuddsoddiad y flwyddyn gyfredol, rhagwelir y bydd y ffigur yma yn £220 miliwn yn chwarter dau.

Yn dilyn trafodaeth lle atebodd y Cyfarwyddwr Cyfadran nifer o gwestiynau, **PENDERFYNWYD**:

1. Sylwi ar fanylion setliad llywodraeth leol <u>terfynol</u> 2024/25 ar gyfer gwariant cyfalaf, yn Atodiad 1;

2. Cytuno ar y broses ailddyrannu arfaethedig o adnoddau presennol, a dyrannu adnoddau newydd, fel y nodir ym mharagraff 5;

3. Cytuno i ddyrannu'r cyllid wedi'i nodi yn yr adroddiad ar gyfer y blaenoriaethau buddsoddi fel y nodir ym mharagraff 6.2;

4. Cytuno ar y rhaglen tair blynedd ‘graidd’ arfaethedig, yn Atodiad 2;

5. Cytuno ar y Rhaglen Gyfalaf tair blynedd arfaethedig gyfan, yn Atodiad 3 (a) i (e), sy'n cynnwys y cyllid nad yw'n gyllid craidd:

   - Benthyca darbodus i gefnogi Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (Ysgolion yr 21ain Ganrif yn flaenorol);
   - Grantiau cyfalaf ar gyfer cynlluniau penodol;
   - Cyfraniadau trydydd parti;
   - Blaenoriaethau buddsoddi sydd wedi'u nodi ym mharagraff 6.2.

**108 STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2024/2025**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyfadran - Gwasanaethau Cyllid, Digidol a Rheng Flaen yr adroddiad blynyddol yn hysbysu bod gweithgareddau benthyca a buddsoddi Rheolaeth y Trysorlys yn cael eu rheoleiddio'n drylwyr, a'u bod yn cael eu cynnal yn unol â'r Codau Ymarfer proffesiynol perthnasol. Ychwanegodd fod cytuno i adolygiad o'r strategaeth Rheoli'r Trysorlys cyn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd yn ofyniad penodol, yn yr un modd â'r adolygiad canol blwyddyn ffurfiol ac adolygiad diwedd blwyddyn.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyfadran, fel y nodir yn yr adroddiad, fod gan y Cyngor £287.2 miliwn o fenthyca ar gyfradd llog gyfartalog o 3.15%, gyda gofyniad benthyca £19 miliwn ar gyfer y flwyddyn nesaf er mwyn ariannu'r rhaglen gyfalaf y cytunwyd arni. Bydd yn ategu hyn drwy bennu dyled tymor hwy os yw’r amgylchedd economaidd a rhagamcanion cyfraddau llog yn galw am hynny. Mae hyn yn cyd-fynd â sefyllfa tanfenthyca’r Cyngor. Mae’r Cyngor wedi parhau i gynnal y sefyllfa ers nifer o flynyddoedd ac mae’r Cyngor yn parhau i gael ei wobrwyo â chost ariannu cyfalaf net is.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyfadran, o ran strategaeth fuddsoddi'r Cyngor, fod y Cyngor yn parhau i roi benthyg i'r sector cyhoeddus a sefydliadau a gefnogir gan y Llywodraeth, gan gydnabod blaenoriaeth diogelwch a hylifedd yn hytrach nag elw.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Cyfadran yr Aelodau at baragraff 16 ar gyfer dangosyddion a therfynau Rheoli Trysorlys y Cyngor a'r Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) a nodir yn adran 17, sy'n parhau i ddileu benthyca â chymorth y Cyngor ar sail llinell syth dros 40 mlynedd. Yn ystod y flwyddyn, derbyniwyd hysbysiad gan Lywodraeth Cymru ei fod yn dymuno adalw'r benthyciad di-log mewn perthynas ag Isadeiledd Trafnidiaeth.

Yn dilyn trafodaeth ar Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Fuddsoddi, Dangosyddion Trysorlys, a'r Datganiad Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) fel y nodir yn yr adroddiad.

**109 ADRODDIAD STRATEGAETH GYFALAF 2024/25**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyfadran Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Rheng Flaen yr Adroddiad Strategaeth Gyfalaf statudol blynyddol 2024/25, sy'n ymgorffori dangosyddion darbodus y Cyngor. Mae ein gwariant cyfalaf y cytunwyd arno a sut y caiff ei ariannu wedi'i nodi yn adran 6 o'r adroddiad, sy'n cynnwys gofynion cyllido cyfalaf y Cyngor (CFR) sef yr angen sylfaenol i fenthyca er mwyn ariannu cynlluniau gwariant cyfalaf hanesyddol a chyfredol y Cyngor. Fel y cyfeiriwyd yn flaenorol, dywedodd y Cyfarwyddwr Cyfadran fod hyn yn dangos sefyllfa o dan fenthyca sylweddol, strategaeth y mae'r Cyngor wedi'i mabwysiadu dros nifer o flynyddoedd. Mae dangosydd pedwar yn amlygu hyn.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyfadran fod terfynau'r Cyngor i weithgareddau benthyca, gan gynnwys terfyn awdurdodedig y Cyngor o £588 miliwn hefyd wedi'u nodi, ynghyd â'r dull cyffredinol o fasnacheiddio, rheoli asedau a'u gwaredu.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyfadran y byddai'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r datganiad Strategaeth Gyfalaf yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer gwaith adolygu a chraffu penodol yn unol â'r codau ymarfer perthnasol.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r adroddiad Strategaeth Gyfalaf sy'n ymgorffori'r Dangosyddion Darbodus.

## 110 DATGANIAD 2024/25 Y CYNGOR AR BOLISI CYFLOGAU

Yn unol ag Adran 38(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011, rhoddodd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol wybodaeth i'r Aelodau am Ddatganiad Polisi Cyflogau 2024/25 y Cyngor. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr yr Aelodau at baragraffau 3.1 i 3.2 a oedd yn nodi'r cyd-destun cyfreithiol ar gyfer yr angen am y polisi tâl a pharagraffau 4.1-4.10 sy'n cyfeirio at y cefndir i'r polisi tâl, yr angen am gymeradwyaeth y Cyngor Llawn ac yn cyfeirio at y Datganiad Polisi Tâl yn Atodiad A i'r adroddiad.

Ar ôl ystyried yr adroddiad ymatebodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol i ymholiad ynghylch camau gweithredu'r Cyngor i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Dywedodd fod y Cyngor wedi cyflwyno nifer o fesurau yn ystod y blynyddoedd diwethaf megis cyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol ac, o fis Ebrill 2022, cynyddodd y Cyngor werth y graddau is (Graddau 1-5) drwy gyflwyno isafswm taliad o £10 yr awr yn ychwanegol at gyfradd gyflog gyfredol y Cyflog Byw Gwirioneddol. Ychwanegodd fod y ddau ddyfarniad cyflog diwethaf yn benodol wedi cefnogi'r gweithwyr hynny ar raddau is.

**PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r Datganiad ar Bolisi Cyflogau, sef Atodiad A yr adroddiad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.00 pm**

**Y Cynghorydd G Hughes**
**Cadeirydd.**

Tudalen wag